

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 7: Defnyddio Meddalwedd Cronfa Ddata

Ionawr 2012

Senario

Cyfeirnod y Papur

6957/01W

Dylai'r senario gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwch: **Nid oes** ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Trowch y dudalen

W41272A

©2012 Edexcel Limited.

1/



edexcel 
advancing learning, changing lives

Senario

Taith Ysgol Uwchradd Berrymill

Mae Charles Howells yn athro gwyddoniaeth yn Ysgol Uwchradd Berrymill. Mae'n trefnu taith bedwar diwrnod i Baris ar gyfer tri o athrawon ac 20 o fyfyrwyr. Bydd y daith rhwng dyddiadau 14 Mawrth ac 17 Mawrth 2012.

Mae angen i Charles gasglu gwybodaeth bersonol y myfyrwyr, gan gynnwys rhifau eu pasbortau a'u manylion cyswllt mewn argyfwng.

Cost y daith yw £400 y myfyriwr. Gall y myfyrwyr wneud un taliad o £400 neu ymestyn y gost drwy wneud pedwar rhan-daliad (*instalment*) o £100.

Mae Charles wedi defnyddio'r Rhyngrwyd i wneud ymchwil i leoedd o ddiddordeb, ac mae wedi penderfynu y bydd y myfyrwyr yn ymweld â Thŵr *Eiffel* a'r *Louvre*. Bydd y myfyrwyr yn cael eu rhannu'n ddau grŵp o 10 ar gyfer yr ymweliadau hyn. Ar 15 Mawrth, bydd un grŵp yn ymweld â Thŵr *Eiffel* a bydd y grŵp arall yn ymweld â'r *Louvre*. Ar 16 Mawrth, bydd pob grŵp yn ymweld â'r lle arall o ddiddordeb.

Mae Charles yn gwybod eich bod chi'n astudio TGCh (*ICT*) ac mae'n meddwl y gallech chi ddatblygu datrysiad TG i'w helpu ef i reoli'r daith. Yn y lle cyntaf, rydych chi wedi cytuno y byddwch chi'n dylunio ac yn adeiladu **prototeip** o system gronfa ddata berthynol (*relational*) a fydd yn canolbwyntio ar bedair tasg. Bydd y system derfynol wedi'i seilio ar eich gwerthusiad o'r prototeip a'ch argymhellion am swyddogaethau (*functionality*) pellach.

Dyma'r tasgau.

1 Cofrestru (**Sign Up**), sy'n cynnwys:

- sicrhau bod rhif pasbort yn bresennol
- sicrhau bod manylion cyswllt mewn argyfwng yn bresennol
- cynhyrchu rhif adnabod myfyriwr (*student ID*) unigryw, sy'n cyfuno llythrennau o enw'r myfyriwr â rhif dilynol (*sequential*) sydd bob amser un rhif yn uwch na'r rhif uchaf sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd
- storio manylion y myfyriwr os yw'r holl ofynion yn cael eu bodloni
- rhoi neges addas i Charles fel ei fod e'n gwybod beth sy'n digwydd.

2 Olrhain Taliadau, sy'n cynnwys:

- dewis myfyriwr
- arddangos y cyfanswm sydd eisoes wedi ei dalu
- cofnodi'r swm sy'n cael ei dalu
- arddangos y balans newydd
- cynhyrchu rhif adnabod taliad (*payment ID*) unigryw dilynol, sydd bob amser un rhif yn uwch na'r rhif uchaf sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd
- storio'r manylion talu
- rhoi neges addas i Charles fel ei fod e'n gwybod beth sy'n digwydd.

3 Neilltuo Dewisiadau o Ymweliadau, sy'n cynnwys:

- dewis ymweliad
- pennu a oes lleoedd ar gael
- dewis myfyriwr sy'n dymuno cael ei ychwanegu at y rhestr os oes lleoedd ar gael
- storio'r dewisiadau o ymweliadau
- rhoi neges addas i Charles fel ei fod e'n gwybod beth sy'n digwydd.

4 Argraffu Negeseuon Atgoffa – Allbrint o neges atgoffa ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd heb dalu'n llawn eto, gan gynnwys y dyddiad, manylion y myfyriwr, y cyfanswm sydd eisoes wedi cael ei dalu a'r balans sy'n weddill.

Bydd angen i'r allbrint edrych yn broffesiynol a bod yn hawdd ei ddarllen.